PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# SUT MAE CEFNOGI HAWLIAU BABANOD

*Mae'r blynyddoedd cynnar yn "gyfnod allweddol ar gyfer gwireddu hawliau plant" (y Cenhedloedd Unedig 2006, t. 3).*

Mae babanod yn dod i wybod am eu hawliau trwy'r modd y mae pobl eraill yn eu trin ac yn gofalu amdanyn nhw. Y berthynas bwysicaf ac amlycaf ym mywyd babanod yw'r berthynas â'u rhieni neu eu gofalwyr.

Mae popeth yn newydd i mi; i'm helpu i ddeall a gwneud synnwyr o'r byd o'm cwmpas, mae arnaf angen y canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyflwyno pobl newydd yn araf oherwydd mae'n cymryd amser i mi ddod i'w hadnabod | Erthygl 6 a 27 |
| Eich bod yn gofalu amdanaf, yn fy nghadw i'n ddiogel ac yn fy helpu i dyfu | Erthygl 6 |
| Bod yn agos at rywun sy'n rhoi gofal i mi wrth i mi ddysgu meithrin ymddiriedaeth a dysgu pethau newydd | Erthygl 5 and 18 |
| Cael enw a dechrau dysgu pwy ydw i | Erthygl 7 |
| Eich sylw, eich amser, eich amynedd a'ch ymrwymiad | Erthygl 6 |
| Cael fy nghysuro gan eich llais a'ch cyffyrddiad pan fyddaf wedi cynhyrfu | Erthygl 19 |
| Cael fy nghynnwys ym mhopeth rydych chi'n ei wneud, gallwch sgwrsio gyda fi am yr hyn sy'n digwydd, sôn am weithredoedd pob dydd | Erthygl 28 |
| Rwy'n hoffi gwylio pobl sy'n agos ataf ac edrych yn eich llygaid (cyswllt llygaid) | Erthygl 6 |
| Eich bod yn ceisio gweld y byd trwy fy llygaid | Erthygl 12 |
| Cyfle i deimlo, dal, cyffwrdd, blasu, edrych a gwrando ar bethau. Rwy am ddarganfod sut mae pethau'n gweithio | Erthygl 28 |
| Eich bod yn chwarae gyda fi a'm helpu i ddod i'ch adnabod er mwyn i mi deimlo'n ddiogel | Erthygl 31 |
| Bod pawb sy'n gofalu amdanaf yn siarad â'i gilydd er mwyn fy neall yn well a sicrhau fy mod i'n teimlo'n sicr a diogel lle bynnag y byddaf | Erthygl 19 |
| Cymorth i ddeall yr holl deimladau mawr rwy'n eu profi | Erthygl 6 |
| Eich bod yn meddwl beth sydd orau i mi wrth wneud unrhyw benderfyniadau amdanaf | Erthygl 3 |

**WWW.CHILDRENINWALES.ORG.UK/CY**

# FY LLAIS

**Erthygl 12 –** yr hawl i fynegi barn yn rhydd ar bob mater sy'n effeithio ar y plentyn ac i'r farn honno gael ei hystyried. Mae plant yn gyfranogwyr gweithredol yn y teulu, y gymuned a'r gymdeithas.



Efallai nad ydw i'n gallu siarad ond rwy eisoes yn cyfathrebu â chi. Gwyliwch fy wyneb, fy symudiadau/gweithredoedd a gwrandewch ar y seiniau rwy'n eu gwneud; dyma fy iaith a does ond angen i chi ddysgu beth mae hyn i gyd yn ei olygu.

Wrth i chi wrando arnaf, byddwch yn dod i'm deall yn well. Rwy'n cyfleu beth rwy'n ei hoffi a ddim yn ei hoffi trwy symud fy llygaid a'm corff, trwy fynegiant wyneb, trwy'r synau a'r seiniau rwy'n eu gwneud. Ydw, rwy'n llefain ond dwy ddim ond yn ceisio dweud rhywbeth.

Mae arna i angen cyfleoedd i wneud penderfyniadau a mynegi fy hun wrth i mi archwilio a chwarae, a chael cyfle i wneud dewisiadau. Fi ydw i ac mae gen i bersonoliaeth unigol ac unigryw; ond mae angen cymorth arnaf i ddeall hyn.



PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

**WWW.CHILDRENINWALES.ORG.UK/CY**